# Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Dethol Radio Dynodedig

## Ymgynghoriad ar ein Cod Ymarfer drafft

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 14 Medi 2026
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 9 Tachwedd 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3

2. Y cefndir a'r fframwaith rheoleiddiol ... 5

3. Camau a argymhellir ... 12

4. Gweithredu, monitro a ffioedd ... 21


## Atodiad


A1. Y fframwaith cyfreithiol ... 23

A2. Cod Ymarfer Drafft ... 28

A3. Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ... 29

A4. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn ... 31

A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ... 34

A6. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad ... 35

A7. Cwestiynau’r ymgynghoriad ... 37

# 1. Trosolwg

1.1 Mae radio'n bwysig i gynulleidfaoedd y DU: mae'r rhan fwyaf o oedolion yn y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos ac mae'n dal yn ffynhonnell allweddol ar gyfer newyddion ac adloniant. Mae mwy o wrando ar radio byw yn digwydd ar-lein na thrwy radio analog ac mae'r gyfran hon yn parhau i gynyddu. Mae'r rhan fwyaf o wrando ar-lein yn digwydd drwy seinyddion clyfar, gyda gwasanaethau cynorthwywyr llais fel Alexa, Google Assistant a Siri yn cysylltu cynulleidfaoedd â llawer o'r gwasanaethau radio maen nhw'n eu mwynhau.

1.2 Yn y cyd-destun hwnnw, cyflwynodd Deddf Cyfryngau 2024 (y Ddeddf Cyfryngau) fframwaith rheoleiddio newydd i ddiogelu argaeledd ffrydiau ar-lein (y cyfeirir atynt hefyd fel gwasanaethau radio rhyngrwyd neu IRS) radio darlledu yn y DU ar wasanaethau cynorthwywyr llais (y cyfeirir atynt hefyd fel gwasanaethau dethol radio neu RSS). Nod hyn yw sicrhau y bydd cynulleidfaoedd yn parhau i gael mynediad at radio rhyngrwyd yn y dyfodol fel y maent heddiw.

1.3 Yng ngham cyntaf gwaith Ofcom yn y maes hwn, fe wnaethom nodi'r RSS roeddem o'r farn y dylai fod yn rhwym wrth y fframwaith newydd. Roeddem yn argymell y dylai'r tri RSS canlynol gael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol: Alexa Amazon, Google Assistant, a Siri Apple. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu'n ddiweddarach eleni pa RSS sy'n dod o dan y rheolau.

1.4 Nawr, rydym yn canolbwyntio ar y dyletswyddau rheoleiddio a fydd yn berthnasol i wasanaethau dethol radio dynodedig (DRSS) a sut maent yn sicrhau bod IRS sy'n dod o fewn y cwmpas ar gael (cyfeirir atynt hefyd fel gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol neu RIRS). Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer cod ymarfer (Cod) sy'n egluro sut gall darparwyr DRSS gyflawni eu dyletswyddau newydd ac sy'n nodi'r camau gweithredu a argymhellir y dylent eu dilyn i sicrhau cydymffurfiad.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Bydd y Cod yn berthnasol i ddarparwyr DRSS. Mae'n nodi'r camau gweithredu a argymhellir y dylai darparwyr eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad.

Rydym yn cynnig model sy'n canolbwyntio ar systemau a phrosesau i'w mabwysiadu gan bob darparwr. Rydym yn rhoi crynodeb o'n hargymhellion isod. Dylai darparwyr DRSS ddatblygu systemau a phrosesau sy'n:

- caniatáu i ddefnyddwyr ddethol a chwarae RIRS. Dylid dylunio'r systemau a'r prosesau hyn i alluogi'r darparwr DRSS i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ganddo am RIRS a dehongli ceisiadau aneglur gan ddefnyddwyr.
- sicrhau bod darparwyr RIRS yn gallu dewis y dull y mae'r DRSS yn ei ddefnyddio i ddarparu eu gwasanaeth i ddefnyddwyr, mewn amgylchiadau lle mae'r RIRS ar gael ar y DRSS drwy fwy nag un dull.
- sicrhau, unwaith y bydd RIRS wedi dechrau chwarae, na ddylai'r DRSS dorri ar ei draws na mewnosod cynnwys ger ei fron yn amodol ar rai eithriadau cyfyngedig.
- sicrhau nad yw DRSS yn codi tâl ar ddarparwr RIRS am gymryd y camau a argymhellir a nodir yn y cod ymarfer.

Nid yw'r Cod yn orfodol i ddarparwyr DRSS, ond byddant yn cael eu trin fel rhai sy'n cydymffurfio â'u dyletswyddau a'u gwaharddiad os byddant yn dilyn y camau gweithredu a

argymhellir. Pan fydd darparwyr yn cymryd camau eraill, ni fyddant yn cael eu trin yn awtomatig fel rhai sy'n cydymffurfio a gall Ofcom ddewis ymchwilio os oes gennym bryderon.

Daw'r drefn newydd i rym pan fydd y Llywodraeth yn cychwyn ar y darpariaethau statudol perthnasol. Pan fydd ar waith, bydd gan Ofcom amrywiaeth o bwerau gorfodi i sicrhau bod darparwyr yn cyflawni eu dyletswyddau newydd.

Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen amser ar ddarparwyr i wneud newidiadau er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd. Felly, rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch a yw tri mis yn gyfnod rhesymol i ddarparwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r drefn newydd.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Y cefndir a'r fframwaith rheoleiddiol

## Cyd-destun y farchnad

### Mae radio byw yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar-lein

2.1 Mae radio yn dal i chwarae rhan bwysig yn nhirwedd cyfryngau'r DU a'r economi greadigol. Mae 87% o oedolion y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos fel ffynhonnell newyddion, adloniant, cerddoriaeth, trafodaeth a chwmnïaeth.[1] Mae gwrandawyr cyffredin yn gwrando am ychydig dros 20 awr o radio byw bob wythnos.[2] Ar adeg pan mae ymddiriedaeth mewn sefydliadau dan straen, mae radio yn dal yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion ac adloniant, gydag 82% o wrandawyr bob wythnos yn dweud eu bod yn ymddiried yn yr hyn maen nhw'n ei glywed.[3]

2.2 Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae pobl yn gwrando yn newid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu symudiad clir tuag at gynulleidfaoedd yn gwrando ar radio byw drwy'r rhyngrwyd. Er mai gwrando ar DAB sy'n dal i gyfrif am y gyfran fwyaf o wrando ar y radio (43% o oriau), mae mwy o wrando ar y radio nawr yn digwydd ar-lein na thrwy radio analog (30% o'i gymharu â 24% o oriau).[4]

2.3 Mae'r newid hwn tuag at wrando ar radio ar-lein wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan y twf yn y defnydd o seinyddion clyfar i gael gafael ar ffrydiau radio rhyngrwyd. Dywed ychydig o dan hanner yr oedolion (49%) eu bod yn berchen ar seinydd clyfar a dywedodd 68% o berchnogion eu bod yn defnyddio eu dyfais i wrando ar y radio.[5]

### Mae cynorthwywyr llais yn borth pwysig at radio ar-lein

2.4 Dim ond un enghraifft amlwg o'r dyfeisiau y gellir eu defnyddio i gael gafael ar ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio drwy gynorthwyydd llais yw seinyddion clyfar. Erbyn hyn, mae amrywiaeth eang o ddyfeisiau ar gael sy'n gallu cysylltu cynulleidfaoedd â gwasanaethau radio, gan gynnwys ffonau clyfar, setiau teledu clyfar, dyfeisiau tabled a systemau newyddion ysgafn ("infotainment") yn y car. Mae cynorthwywyr llais yn gweithredu fel porth i ddefnyddwyr gael gafael ar wasanaethau radio ar y dyfeisiau hyn.

2.5 Yn 2020, comisiynodd y Llywodraeth Adolygiad Sain a Radio Digidol i ystyried, fel rhan o adolygiad ehangach o'r sector, effaith bosibl cynorthwywyr llais yn gweithredu fel porth i wrandawyr sy'n defnyddio radio rhyngrwyd yn y DU. Nododd yr adolygiad fanteision cynorthwywyr llais, i wrandawyr, gan roi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran sut maent yn cael gafael ar gynnwys radio, ac i ddarparwyr radio, gan eu galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd mewn ffordd newydd a gwahanol.

2.6 Fodd bynnag, tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at y ffaith bod cynorthwywyr llais yn gyfryngwyr. Maent yn newid y berthynas uniongyrchol draddodiadol rhwng darparwyr a

[1] RAJAR Ch2 2026.
[2] RAJAR Ch2 2026.
[3] IPA TouchPoints SuperHub 2026.
[4] RAJAR Ch2 2026.
[5] Cyfryngau'r Genedl, Ofcom 2026 t.77.

gwrandawyr oherwydd eu gallu i ddylanwadu ar ddarganfod a chael gafael ar gynnwys. Nododd yr adroddiad y potensial i weithredwyr platfformau fanteisio ar alluoedd dethol radio eu cynorthwywyr llais, er enghraifft drwy godi tâl ar ddarparwyr radio am argaeledd, mewnosod hysbysebion mewn ffrydiau radio neu israddio gwasanaethau radio wrth chwilio am lais. Nododd yr adroddiad y gallai'r rhain gael effaith sylweddol ar hyfywedd masnachol gwasanaethau radio a gallu gwrandawyr i gael gafael ar newyddion a gwybodaeth maen nhw'n ymddiried ynddynt, gan gynnwys cynnwys radio gwasanaeth cyhoeddus.

## Mae'r marchnadoedd radio a chynorthwywyr llais yn newid yn gyflym

2.7 Ers yr adolygiad, mae arloesedd wedi parhau ar draws y sector radio a'r farchnad cynorthwywyr llais. Mewn ymateb i gystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr podlediadau a ffrydio cerddoriaeth, mae darlledwyr radio yn ehangu y tu hwnt i ddarlledu byw traddodiadol i gynnig podlediadau a rhestrau chwarae wedi'u curadu. Mae gwrando yn y car hefyd yn esblygu, wedi'i sbarduno gan bresenoldeb cynyddol swyddogaethau rheoli llais mewnol ac integreiddiadau ffonau clyfar drwy Apple CarPlay neu Android Auto mewn llawer o fodelau ceir mwy newydd yn y DU. Mae gwrando drwy'r rhyngrwyd yn cyfrif am 7% o'r holl oriau radio yn y car.[6]

2.8 Mae technoleg cynorthwyydd llais hefyd wedi parhau i ddatblygu'n fyd-eang, drwy fabwysiadu deallusrwydd artiffisial mwy soffistigedig, cynyddu gallu cynorthwywyr llais i ddeall cyd-destun, cynhyrchu ymatebion naturiol a chyflawni tasgau cymhleth. Mae dau ddarparwr mawr wedi cyflwyno cynorthwywyr llais cenhedlaeth nesaf sy'n defnyddio technolegau uwch. Alexa+ yw'r enw ar Amazon, a lansiwyd yn y DU fis Mawrth 2026. Mae Google wedi dechrau disodli Google Assistant gyda Gemini ar ffonau clyfar ac wedi lansio Gemini for Home mewn mynediad cynnar ar draws nifer o wledydd gan gynnwys y DU. Yn olaf, mae Apple wedi cyhoeddi y bydd Apple Intelligence yn cael ei integreiddio mewn diweddariad i'w gynorthwyydd llais Siri.

# Sut mae radio rhyngrwyd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd


2.9 Mae darparwyr gwasanaethau radio yn sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael drwy gynorthwywyr llais mewn nifer o ffyrdd. Weithiau, mae'r rhain yn deillio o gytundebau uniongyrchol â'r platfformau cynorthwywyr llais, drwy wasanaethau fel Pecyn Sgiliau Radio Amazon, neu eu hapiau perchnogol, fel BBC Sounds neu Global Player. Mae rhai darparwyr yn darparu eu gwasanaethau drwy wasanaeth cyd-gasglu, fel Radioplayer neu TuneIn, yn lle hynny neu ar ben hynny.

2.10 Yn ymarferol, mae llawer o ddarparwyr radio yn defnyddio mwy nag un llwybr i gyrraedd cynulleidfaoedd drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais. Mae **Ffigur 1** yn rhoi trosolwg o'r camau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau radio drwy seinyddion clyfar,[7] fel sy'n cael ei grynhoi isod.

[6] RAJAR Ch2 2026

[7] Gall manylion technegol penodol amrywio yn ôl llwyfan.

**Ffigur 1: Sut mae cynorthwywyr llais yn darparu radio yn gyffredinol mewn ymateb i orchmynion llafar**




## Trosglwyddo, cipio sain a chanfod geiriau deffro

2.11 Mae'r broses yn dechrau pan fydd defnyddiwr yn actifadu cynorthwyydd llais gyda gair deffro dynodedig (ee 'Alexa' yn seinyddion clyfar Amazon, 'Hey Google' yn seinyddion clyfar Google a 'Hey Siri' yn HomePods Apple) ac yn gwneud cais am wasanaeth radio. Mae'r cais yn cael ei recordio'n lleol ar y ddyfais cyn cael ei drosglwyddo i weinydd cwmwl y cynorthwyydd llais i'w brosesu ymhellach. O'r pwynt hwn ymlaen, bydd prosesu'n digwydd yn y cwmwl.

## Trosi lleferydd i destun a phrosesu iaith naturiol

2.12 Ar ôl i weinydd y platfform dderbyn cais y defnyddiwr, bydd y sain wedi'i recordio yn cael ei throsi'n destun gan feddalwedd Adnabod Llais Awtomatig (ASR) ac yna'n cael ei dehongli gan algorithm Prosesu Iaith Naturiol (NLP). Mae'r algorithm yn dadansoddi'r testun i bennu bwriad y defnyddiwr ac i nodi gwybodaeth berthnasol. Er enghraifft, ar gyfer y cais "Chwarae BBC Radio 1," penderfynir yn gyntaf ar y bwriad i "chwarae" gwasanaeth cyn i'r geiriau "BBC Radio 1" roi'r cyfeirnod data sy'n nodi'r gwasanaeth penodol sydd i'w chwarae.

2.13 Ar ôl dehongli'r cais, mae platfform y cynorthwyydd llais wedyn yn penderfynu ar y dull o ddarparu'r gwasanaeth radio. Fel y trafodwyd uchod, yn dibynnu ar y trefniadau technegol a masnachol sydd ar waith, gellir cyfeirio ceisiadau at wasanaeth ffrydio darparwr radio ei hun, rhaglen integredig sy'n cael ei gweithredu gan ddarparwr y cynorthwyydd llais (ee

Apple Music neu Becyn Sgiliau Radio Amazon) neu ddarparwr arall fel cydgasglydd (ee Radioplayer neu TuneIn). Yn y pen draw, bydd pob un o'r dulliau hyn yn darparu ffrwd cynnwys sy'n tarddu o'r darparwr radio.

### Trosglwyddo a darparu gwasanaethau

2.14 Ar ôl dewis y llwybr danfon, bydd platfform y cynorthwyydd llais yn anfon cais i ddechrau chwarae'r gwasanaeth radio gan ddefnyddio'r dull hwnnw. Yna, y darparwr radio neu'r cydgasglydd sy'n gyfrifol am gyflenwi'r ffrwd gynnwys i ddyfais y defnyddiwr. Yn ymarferol, mae cynnwys fel arfer yn cael ei ddarparu drwy rwydwaith darparu cynnwys (CDN) sy'n ffrydio cynnwys o weinydd cyfagos yn uniongyrchol i ddyfais y defnyddiwr.

## Cwmpas y drefn newydd

2.15 Cyflwynodd Deddf Cyfryngau 2024 (y Ddeddf Cyfryngau) amrywiaeth o ddiwygiadau i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol i sector cyfryngau'r DU. O ystyried rôl gynyddol bwysig platfformau cynorthwywyr llais fel llwybr at gynulleidfaoedd, mae Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau yn gweithredu trefn reoleiddio newydd gyda set wedi'i thargedu o fesurau diogelu ar gyfer y gwasanaethau radio rhyngrwyd sy'n eu defnyddio. Gan gydnabod y potensial cynyddol i blatfformau siapio mynediad at wasanaethau radio rhyngrwyd, mae'r drefn hon yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd pan fydd gwrandawyr yn gofyn am wasanaeth radio rhyngrwyd drwy orchymyn llafar.

2.16 Ar hyn o bryd nid yw cwmpas y drefn yn cynnwys trefniadau masnachol neu dechnegol ehangach rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd, platfformau cynorthwywyr llais a thrydydd partïon fel cydgasglwyr. Er enghraifft, nid yw'n ymdrin â sut dylai trefniadau cynefino weithio, na mynnu bod darparwyr cynorthwywyr llais yn creu dulliau darparu newydd, nac yn rheoleiddio'r telerau contract rhwng darparwyr gwasanaethau radio rhyngrwyd a gwasanaethau cyd-gasglu radio.

2.17 Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn cadw hyblygrwydd i addasu cwmpas y drefn yn y dyfodol. Mae gan Ofcom rôl statudol i adolygu a yw'r fframwaith rheoleiddio yn ddigonol ac adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn ei dro, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ddiwygio'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar gynorthwywyr llais sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaethau am y telerau a'r amodau y mae platfformau cynorthwywyr llais yn eu cynnig i wasanaethau radio rhyngrwyd.[8]

## Prif elfennau'r fframwaith

2.18 O dan y fframwaith newydd, mae platfformau cynorthwywyr llais yn cael eu galw'n wasanaethau dethol radio (RSS)[9] ac mae gwasanaethau radio ar-lein yn cael eu galw'n wasanaethau radio rhyngrwyd (IRS).[10] Mae'r RSS hynny sydd wedi cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dod yn wasanaethau dethol radio dynodedig (DRSS).[11] Rhaid i ddarparwyr DRSS sicrhau eu bod yn cydymffurfio â dyletswyddau i ddarparu mynediad at

[8] Adrannau 362BO a 362BP o'r Ddeddf.
[9] Adran 362BA(1) o'r Ddeddf.
[10] Adran 362BF o'r Ddeddf.
[11] Adran 362BB(1) o'r Ddeddf.

wasanaethau radio rhyngrwyd sydd wedi'u cynnwys mewn rhestr a gynhelir gan Ofcom (gelwir y gwasanaethau hyn yn wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol, neu RIRS).[12]

2.19 Mae gweddill yr adran hon yn egluro'r fframwaith yn fanylach: mae hyn yn cynnwys dynodi RSS, rhestr Ofcom o RIRS a rôl Ofcom yn cynhyrchu cod ymarfer (y Cod). Ceir rhagor o fanylion am y drefn newydd yn Atodiad 1.

## Dynodi gwasanaethau dethol radio

2.20 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ddynodi RSS a dod â nhw o fewn cwmpas y drefn newydd.[13] Cyn iddynt wneud hynny, rhaid i Ofcom roi adroddiad iddynt yn gyntaf yn nodi'r argymhellion.[14] Ym mis Mai 2025, gwnaethom gyhoeddi datganiad ar yr egwyddorion a'r dulliau y byddem yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad o'r fath. Yn dilyn y fethodoleg honno, ym mis Mawrth 2026 fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad yn argymell y tri RSS canlynol i'w dynodi: Alexa Amazon, Google Assistant, a Siri Apple. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ei chynigion i ddynodi RSS.

## Dyletswyddau sy'n berthnasol i ddarparwyr DRSS

2.21 Yn gryno, rhaid i ddarparwyr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r canlynol:

a) gall defnyddwyr ddewis RIRS, ac achosi iddynt chwarae, drwy roi gorchmynion llafar;[15]
b) nid oes unrhyw eitemau'n cael eu chwarae cyn yr RIRS dan sylw, ac nid oes unrhyw ymyriadau i'r RIRS;[16] a hefyd
c) mae'r dull penodol y gofynnwyd amdano gan ddarparwr yr RIRS yn cael ei ddefnyddio gan y DRSS i gyflawni'r RIRS a ddewiswyd.[17]

2.22 Ar ben hynny, ni ddylai darparwr DRSS godi tâl ar ddarparwyr RIRS am wneud yr hyn mae'n rhaid i ddarparwyr DRSS ei wneud i gydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir uchod.[18]

2.23 Yn y ddogfen hon rydym yn cyfeirio at y darpariaethau hyn fel y dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl.

## Cod Ymarfer Ofcom

2.24 Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu Cod sy'n nodi'r camau gweithredu a argymhellir y gall darparwyr DRSS eu cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl. Ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer y Cod hwnnw yw'r ddogfen hon.[19]

2.25 Bydd darparwyr DRSS yn cael eu trin fel rhai sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl os byddant yn cymryd y camau y mae'r Cod yn eu hargymell. O'r herwydd, bydd dilyn y Cod yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr ynghylch cydymffurfio.

---

[12] Yng ngweddill y ddogfen ymgynghori hon, a Chod drafft Ofcom, rydym yn defnyddio'r termau 'RSS', 'DRSS', 'IRS' a 'RIRS'.
[13] Adran 362BB(2) o'r Ddeddf.
[14] Adran 362BB(3) o'r Ddeddf.
[15] Adran 362BC(8) o'r Ddeddf.
[16] Adran 362BI(2) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr yn diystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[17] Adran 362BI(3) a (4) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr yn diystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[18] Adran 362BI(6) o'r Ddeddf.
[19] O dan y Ddeddf, nid yw'r Cod Ymarfer yn cynnwys y gofynion i DRSS gynhyrchu datganiad cydymffurfio a sefydlu a chynnal trefn gwyno.

2.26 Gall darparwyr ddewis peidio â dilyn y Cod a chymryd camau eraill yn eu barn nhw sy'n bodloni'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl. Os byddant yn gwneud hynny, ni fydd darparwyr yn cael eu trin yn awtomatig fel darparwyr sy'n cydymffurfio. Os bydd gan Ofcom bryderon am gamau eraill a gymerwyd, gall ddewis ymchwilio i'r mater i weld a yw'r darparwr yn cydymffurfio. Mae'r Ddeddf yn rhoi amrywiaeth o bwerau gorfodi i Ofcom fynd i'r afael â phryderon ynghylch cydymffurfio. Edrychwch ar Adran 4 i gael rhagor o wybodaeth am ddull gorfodi Ofcom.

### Datganiad cydymffurfio

2.27 Mae'n ofynnol hefyd i ddarparwyr DRSS[20] lunio datganiad yn egluro sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl, ei gyhoeddi a'i adolygu'n barhaus ac, os yw'n briodol, ei ddiwygio.

2.28 Pan fydd darparwr DRSS yn bwriadu cydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl drwy ddilyn y camau gweithredu a argymhellir yn y Cod, gellid defnyddio'r datganiad cydymffurfio i roi rhagor o dryloywder a gwybodaeth ddefnyddiol i ddarparwyr RIRS. Pan fydd darparwr DRSS yn bwriadu cydymffurfio gan ddefnyddio dull arall na'r camau a argymhellir yn y Cod, dylai'r datganiad cydymffurfio nodi beth yw'r dull hwnnw a sut bydd yn sicrhau cydymffurfiad â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl.

### Prosesau delio â chwynion a'u datrys DRSS

2.29 Mae'n ofynnol i ddarparwyr DRSS[21] sefydlu a chynnal gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a wneir gan ddarparwyr RIRS sy'n ymwneud â chydmffurfiad y darparwr â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl.

### Rhestr o wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol

2.30 Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am sefydlu a chynnal rhestr o RIRS.[22] Dyma'r meini prawf i fod ar y rhestr:

a) Mae Ofcom o'r farn bod gan ddarparwr y gwasanaeth system neu broses effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth radio rhyngrwyd yn cyfateb i wasanaeth radio yn y DU y mae'n ei ddarparu; a
b) bod darparwr y gwasanaeth wedi rhoi gwybod i Ofcom ei fod yn dymuno i'r gwasanaeth gael ei gynnwys ar y rhestr.

2.31 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Ofcom yn cyhoeddi gwybodaeth i gefnogi darparwyr gwasanaethau radio rhyngrwyd sy'n awyddus i elwa o'r drefn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut mae Ofcom yn disgwyl asesu hysbysiadau o'r fath a chynnal y rhestr o RIRS. Rhaid i ddarparwyr IRS optio i mewn i'r drefn drwy roi gwybod i Ofcom a gallant wneud hynny ar unrhyw adeg pan fydd y broses ar agor.

## Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

2.32 Mae gweddill y ddogfen ymgynghori hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 3** yn egluro'r dull rydym wedi'i ddefnyddio i ddatblygu ein cynigion cod ymarfer, yn amlinellu beth yw'r cynigion, ac yn asesu eu heffeithiau posibl;

[20] Adran 362BJ o'r Ddeddf.
[21] Adran 362BN o'r Ddeddf.
[22] Adran 362BG(2) o'r Ddeddf.

- Mae **Adran 4** yn egluro prosesau gweithredu, monitro a ffioedd y diwydiant;
- Mae **Atodiad 1** yn nodi'r fframwaith cyfreithiol;
- Mae **Atodiad 2** yn cynnwys ein Cod drafft mewn dogfen ar wahân; ac
- Mae **Atodiad 3** yn cynnwys ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'n Hasesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

## Y camau nesaf

2.33 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau ar agor tan 5pm ar 9 Tachwedd 2026. Rydym ni'n croesawu unrhyw sylwadau sydd gan randdeiliaid am ein cynigion ac yn gobeithio cael ymgysylltiad pellach gyda phartïon â diddordeb cyn gwneud ein penderfyniadau.

2.34 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cwblhau ein dull gweithredu, gan ystyried ymatebion rhanddeiliaid, ac yn cyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Cod terfynol yng ngwanwyn 2027.

# 3. Camau a argymhellir

3.1 Yn yr adran hon, rydym yn egluro'r camau gweithredu rydym yn cynnig eu cynnwys yn y Cod, y dylai darparwyr DRSS eu dilyn i gydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad codi tâl a nodir mewn deddfwriaeth. Ar gyfer pob un o'r rhain, rydym yn egluro ein cynnig, pam rydym yn credu y bydd yn effeithiol a'i effaith debygol. Rydym wedyn yn asesu a yw'r camau gweithredu arfaethedig a argymhellir yn gymesur pan gânt eu hystyried gyda'i gilydd.[23]

## Dyletswydd dethol a chwarae

3.2 Mae'r ddyletswydd gyntaf yn y Ddeddf yn mynnu bod darparwyr DRSS yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr, drwy roi gorchmynion llafar, yn gallu dethol ac achosi i RIRS chwarae. Rhaid i ddarparwyr DRSS wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol i IRS ymddangos ar restr Ofcom o RIRS.

3.3 Rydym yn crynhoi ein hargymhelliad arfaethedig ar gyfer y ddyletswydd dethol a chwarae isod. Mae'r argymhelliad wedi'i nodi'n llawn yn y Cod drafft yn Atodiad 2.

| Crynodeb o argymhelliad 1: Dyletswydd dethol a chwarae |
| --- |
| **Paragraff A1.1**: Dylai darparwyr DRSS ddatblygu systemau a phrosesau i sicrhau bod pob RIRS yn gallu cael ei ddethol a'i achosi i chwarae mewn ymateb i orchymyn llafar gan ddefnyddiwr.<br><br>**Paragraff A1.2**: Dylid dylunio'r systemau a'r prosesau a ddatblygwyd gan ddarparwr DRSS i alluogi'r DRSS i nodi pa RIRS y gofynnwyd amdano, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle nad yw hunaniaeth y RIRS yn glir. Dylai'r systemau a'r prosesau hefyd fod yn ddigon i nodi pryd mae RIRS wedi cael ei ychwanegu at restr Ofcom o RIRS a dylid eu dylunio i alluogi darparwyr DRSS i gadw gwybodaeth am yr RIRS yn gyfredol.<br><br>**Paragraff A1.3**: Nid yw'r camau gweithredu a argymhellir yn berthnasol pan fydd cais defnyddiwr yn ymwneud â RIRS a oedd: wedi cael ei ychwanegu at restr Ofcom lai na mis cyn y cais; nad yw ar gael; neu nad oes modd ei chwarae naill ai oherwydd cyfyngiadau dyfais neu'r ffordd mae'r defnyddiwr wedi ffurfweddu ei ddyfais. |

### Eglurhad o'r camau gweithredu arfaethedig a argymhellir

3.4 Yn hytrach na phennu set o gamau technegol, rydym yn cynnig model sy'n canolbwyntio ar systemau a phrosesau i'w mabwysiadu gan bob darparwr DRSS. Mae hyn yn golygu mai mater i bob darparwr DRSS fydd penderfynu ar y camau technegol a gweithredol penodol y mae'n rhaid iddo eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau a nodir yn Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau.

3.5 Rydym wedi mabwysiadu'r dull hwn i gydnabod y ffaith bod technoleg a phatrymau defnydd yn parhau i esblygu. Mae'r union ffordd y mae cynorthwywyr llais yn darparu IRS eisoes yn amrywio rhwng darparwyr ac mae'n debygol o newid ymhellach dros amser. O ystyried hyn, rydym o'r farn bod cyfarwyddiadau manwl i bob darparwr DRSS, a allai fod yn

[23] Mae ein hargymhellion wedi'u nodi'n llawn yn y Cod drafft yn Atodiad 2.

anymarferol i'w nodi eisoes, yn annhebygol o fod er budd gorau defnyddwyr neu o hwyluso arloesedd technegol.

3.6 Serch hynny, gellir cymhwyso rhai egwyddorion cyffredinol. Dylai'r prosesau a fabwysiadwyd gan ddarparwyr DRSS, er enghraifft, allu nodi'r RIRS y mae'r defnyddiwr wedi gofyn amdano. Mewn amgylchiadau lle mae cais am RIRS yn amwys neu'n anodd ei ddehongli, mae'n bwysig bod DRSS yn cymryd camau rhesymol i'w adnabod. Gall hyn gynnwys ystyried unrhyw wybodaeth gyd-destunol sydd gan DRSS am y defnyddiwr, fel ei leoliad neu geisiadau blaenorol, datblygu systemau sy'n cynnwys enwau amgen ar gyfer gwasanaeth neu ddatblygu systemau sy'n ceisio egluro'r cais sydd wedi cael ei wneud.

3.7 Mae adnabod gwasanaeth sydd i'w chwarae yn gywir yn dibynnu ar fod systemau a phrosesau ar waith i gadw gwybodaeth berthnasol yn gyfredol. Gall yr union wybodaeth y gall darparwyr DRSS ddethol ei chadw amrywio, ond dylai hyn gynnwys enw'r gwasanaeth o leiaf.

3.8 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod darparwyr DRSS yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dethol a chwarae RIRS o fewn "cyfnod rhesymol" ar ôl ychwanegu'r RIRS at restr Ofcom. Ym mharagraff A1.3 o'r Cod, rydym wedi cynnig pennu'r cyfnod rhesymol hwnnw fel mis. Wrth wneud y cynnig hwn, roeddem wedi ystyried tystiolaeth gan randdeiliaid a oedd yn awgrymu, ar ôl i ddarparwyr RIRS ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol, bod y camau sy'n ofynnol i alluogi defnyddwyr i ddethol a chwarae RIRS sydd newydd ei restru yn ddiweddariadau gweithredol yn bennaf i brosesau dethol a chwarae'n ôl presennol. Gall y rhain gynnwys cydnabod bod gwasanaeth wedi cael ei ychwanegu at restr Ofcom, ei gyfateb â gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth a sicrhau bod ceisiadau defnyddwyr am y gwasanaeth yn cael eu trin yn briodol. Ar y sail honno, rydym o'r farn bod mis yn gyfnod rhesymol.

3.9 Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gall fod rhai amgylchiadau lle nad yw DRSS yn gallu chwarae gwasanaeth a ddewisir gan y defnyddiwr. Fel y nodir ym mharagraff A1.3, bydd y rhain yn cynnwys yr achosion canlynol:

a) lle na ellir chwarae RIRS o ganlyniad i rywbeth sy'n cael ei wneud, neu nad yw'n cael ei wneud, gan bartïon eraill sy'n ymwneud â darparu'r RIRS - er enghraifft, lle nad yw'r gweinydd sy'n cynnal y ffrwd sain yn weithredol;
b) lle nad yw dyfais y defnyddiwr yn gallu delio â'r swyddogaeth berthnasol - er enghraifft, os yw wedi'i datgysylltu oddi ar y rhyngrwyd; a
c) lle nad yw'r defnyddiwr wedi ffurfweddu'r ddyfais y mae'r DRSS yn gweithredu arni fel y gellir chwarae RIRS. Er enghraifft, pan fydd RIRS yn mynnu bod defnyddiwr yn mewngofnodi i gael mynediad at yr RIRS a bod y defnyddiwr yn penderfynu peidio â gwneud hynny, ni fydd y DRSS yn gallu darparu'r gwasanaeth.

## Effaith ein cynnig

### Effaith ar ddarparwyr DRSS

3.10 Bwriad y camau gweithredu rydym yn eu hargymell o dan y ddyletswydd hon yw sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gofyn am wasanaeth gan ddefnyddio gorchymyn llafar a bod y gwasanaeth y gofynnir amdano yn cael ei ddethol a'i chwarae. Ein dealltwriaeth ni, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 2 uchod, yw bod darparwyr RSS eisoes yn gweithredu systemau a phrosesau i nodi gorsafoedd y gofynnwyd amdanynt, eu cyfateb i wybodaeth am

wasanaethau a'u cyfeirio at ffrwd y gellir ei chwarae.[24] Felly, prif effaith ein camau gweithredu arfaethedig yw egluro'r canlyniadau y dylai'r systemau hynny eu cyflawni, gan adeiladu ar y swyddogaethau sydd gan ddarparwyr DRSS eisoes ar waith. Yn unol â hynny, ein hasesiad yw bod unrhyw waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â chael proses i gadw gwybodaeth a gedwir am RIRS yn gyfredol a datrys ceisiadau amwys yn effeithiol yn debygol o fod yn gynyddol.

3.11 Rydym yn cydnabod y gallai fod rhywfaint o waith ychwanegol yn gysylltiedig â chymhwyso'r prosesau hyn i fwy o RIRS. Fodd bynnag, oherwydd bod llawer o IRS eisoes ar gael drwy RSS,[25] rydym yn disgwyl i gydymffurfio yn bennaf gynnwys cryfhau neu raddio prosesau presennol yn hytrach na chyflwyno systemau cwbl newydd. Felly, rydym o'r farn bod y costau cynyddrannol yn debygol o fod yn gyfyngedig.

3.12 Rydym o'r farn bod mis yn gyfnod rhesymol i ddarparwyr DRSS gymryd y camau angenrheidiol ar ôl ychwanegu RIRS at restr Ofcom. Gan ei bod yn gyffredin ar hyn o bryd i blatfformau gyflawni'r prosesau angenrheidiol i sicrhau bod RIRS ar gael o fewn mis, nid ydym yn disgwyl i'r cynnig hwn gael effaith sylweddol.[26]

### Effaith ar ddarparwyr RIRS

3.13 Disgwylir i ddarparwyr RIRS elwa o'r camau gweithredu arfaethedig a argymhellir (neu fesurau cyfatebol) y mae darparwyr DRSS yn eu rhoi ar waith - mae gallu cynulleidfaoedd yn y DU i ofyn am y ffrydiau radio y maent am wrando arnynt a'u derbyn yn ganolog i nodau'r drefn hon.

**Cwestiwn 1 yr ymgynghoriad**:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **dyletswydd dethol a chwarae** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

## Dyletswydd dull penodol

3.14 Fel y trafodwyd yn Adran 2 uchod, mae gwasanaethau radio ar gael ar hyn o bryd drwy amrywiaeth o ddulliau gwahanol gan gynnwys ap darparwr RIRS ei hun, cydgasglydd trydydd parti, neu lwybr arall a gefnogir gan y DRSS hwnnw. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr DRSS i alluogi darparwyr RIRS i ddewis y dull "penodol" y mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei chwarae drwyddo (a ddisgrifiwn yn y Cod fel y dull "a ffefrir"), os yw'r RIRS ar gael ar y DRSS drwy fwy nag un dull.

---

[24] Gweler er enghraifft Pecyn Sgiliau Radio Amazon Alexa, Google Assistant, a Siri Apple.

[25] Er bod yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi nodi yn ei hasesiad effaith bod dros 600 o wasanaethau radio am ddim wedi'u rheoleiddio gan Ofcom yn y DU ar hyn o bryd, mae cyfran sylweddol o'r rhain yn cael eu gweithredu gan y tri phrif berchennog gorsaf fasnachol (Global, Bauer, a News UK) yn ogystal â'r BBC. Gweler asesiad effaith yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer 'Rheoleiddio gwasanaethau radio ar draws platfformau cynorthwywyr llais'.

[26] Er enghraifft, mae Amazon yn disgrifio bod "y broses amlyncu yn cymryd hyd at 72 awr ar ôl cyflwyno neu ddiweddaru. Mae cyflwyno neu addasu gorsafoedd ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon yn broses a wneir â llaw sy'n gallu cymryd hyd at 3 wythnos." (gweler yma). I gyhoeddi ap ar App Store Apple, mae Apple yn disgrifio ei bod yn gallu cymryd hyd at 24 awr i'ch ap gael ei gymeradwyo (gweler yma), a bod 90% o'r cyflwyniadau'n cael eu hadolygu mewn llai na 24 awr ar gyfartaledd. (gweler yma). Ar TuneIn, mae'r broses fel arfer yn cymryd 48 awr (gweler yma).

**Crynodeb o argymhelliad 2: Dyletswydd dull penodol**

**Paragraff A2.1**: Dim ond pan fydd RIRS ar gael i'w ddewis a'i achosi i chwarae drwy fwy nag un dull y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol ac mae darparwr RIRS wedi gofyn am ddefnyddio dull penodol (a ddisgrifir yn y Cod fel 'y dull a ffefrir').

**Paragraff A2.2**: Dylai'r systemau a'r prosesau a ddatblygwyd gan ddarparwr DRSS sicrhau bod RIRS yn cael ei achosi i chwarae gan ddefnyddio dull a ffefrir gan ddarparwr RIRS.

**Paragraff A2.3**: Dylai'r systemau a'r prosesau hefyd fod yn ddigonol i alluogi darparwr RIRS i roi gwybod i ddarparwr DRSS am newid i'r dull a ffefrir ganddo.

**Paragraff A2.4**: Nid yw paragraff A2.2 yn berthnasol os byddai'r dull sy'n cael ei ffafrio yn drech na dewisiadau defnyddiwr, neu os nad yw'r dull sy'n cael ei ffafrio yn gweithio.

## Eglurhad o'r camau gweithredu arfaethedig a argymhellir

3.15 Nod y camau a argymhellir o dan y ddyletswydd hon yw sicrhau bod darparwyr RIRS yn gallu dethol y dull y mae'r DRSS yn ei ddefnyddio i ddarparu eu gwasanaeth i ddefnyddwyr, mewn amgylchiadau lle mae'r RIRS ar gael ar y DRSS drwy fwy nag un dull. Yn yr un modd â'r ddyletswydd dethol a chwarae, nid ydym yn cynnig nodi'r union gamau y dylai darparwyr DRSS eu dilyn i sicrhau naill ai bod dull dewisol darparwr RIRS yn cael ei ddefnyddio, neu fod ganddo drefniadau effeithiol ar waith i dderbyn a gweithredu ar hysbysiad gan ddarparwr RIRS bod y dull a ffefrir ganddo wedi newid. Oherwydd bod y ffyrdd mae gwasanaethau radio'n cael eu cyflwyno drwy gynorthwywyr llais yn amrywio, rydym o'r farn ei bod yn briodol caniatáu hyblygrwydd i ddarparwyr DRSS yn y systemau a'r prosesau maen nhw'n eu mabwysiadu i gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

3.16 Yn unol â'r eithriadau i'r ddyletswydd a nodir yn y Ddeddf,[27] mae ein camau gweithredu a argymhellir yn nodi'n glir bod amgylchiadau lle na fyddai'n briodol i ddarparwr DRSS ddefnyddio dull a ffefrir gan ddarparwr RIRS i chwarae RIRS a ddewisir. Er enghraifft, dylai dewis defnyddiwr gael blaenoriaeth os yw'n gofyn yn benodol am wasanaeth drwy ddull penodol sydd ar gael (ee "Alexa, chwarae Capital ar Global Player") neu os yw wedi ffurfweddu dewisiadau drwy osodiadau dyfais o'r blaen.

3.17 Yn yr un modd, os nad yw'r dull sy'n cael ei ffafrio ar gael dros dro neu os nad yw'n weithredol fel arall am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth darparwr DRSS, nid ydym o'r farn y dylai fod yn ofynnol i'r DRSS ei ddefnyddio. Er enghraifft, gall hyn fod yn wir pan fydd nam technegol dros dro ar wasanaeth darparwr y RIRS. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhesymol i ddarparwr DRSS ddefnyddio dull arall, er y byddem yn disgwyl i systemau a phrosesau darparwr DRSS allu mynd yn ôl i ddull a ffefrir gan ddarparwr RIRS unwaith y bydd ar gael eto.

## Effaith ein cynnig

### Effaith ar ddarparwyr DRSS

3.18 Pan fydd RIRS eisoes ar gael drwy fwy nag un dull, mae darparu ar gyfer cais am ddull penodol yn debygol o olygu newidiadau cyfyngedig, fel llwybro, ffurfweddu, neu ddiweddariadau gwybodaeth gwasanaeth cysylltiedig. Mae'r camau gweithredu arfaethedig hefyd yn cydnabod na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr DRSS gymryd camau sydd y tu

[27] Adran 362BI(5) o'r Ddeddf.

hwnt i’w rheolaeth, gan gynnwys pan nad yw’r dull sy’n cael ei ffafrio ar gael dros dro neu pan nad yw’n weithredol fel arall. Felly, rydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith ar ddarparwyr DRSS yn gyfyngedig.

### Effaith ar ddarparwyr RIRS

3.19 Prif fantais y gofyniad hwn i ddarparwyr RIRS yw mwy o reolaeth dros sut mae eu gwasanaeth yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr, sy’n gallu cefnogi profiad mwy cyson i wrandawyr a negeseuon cliriach i gynulleidfaoedd. Fel y nodwyd yn asesiad effaith y Llywodraeth, gallai hyn wella profiad y defnyddiwr o wrando ar y radio drwy blatfformau cynorthwywyr llais a gallai yn ei dro gefnogi mwy o wrandawyr radio ar y platfformau hynny.

> Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:
>
> Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **dyletswydd dull penodol** a’n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

## Dyletswydd dim ymyriadau

3.20 Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau bod darparwyr DRSS yn cymryd pob cam rhesymol i atal RIRS rhag cael ei ragflaenu gan unrhyw eitemau ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig[28] na tharfu arno ar ôl iddo ddechrau chwarae. Mae’n sicrhau disgwyliadau gwrandawyr o ran mynediad heb ei rwystro at radio ac yn cynnal uniondeb cais defnyddiwr, gan sicrhau nad yw darparwyr yn newid, yn oedi nac yn manteisio’n fasnachol ar fynediad at wasanaethau radio.

> **Crynodeb o argymhelliad 3: Dyletswydd dim ymyriadau**
>
> **Paragraff A3.1**: Dylai darparwyr DRSS ddatblygu systemau a phrosesau sy’n sicrhau'r canlynol:
>
> a) unwaith y bydd RIRS wedi dechrau chwarae, nid yw’r DRSS yn tarfu arno;
>
> b) nid yw’r DRSS yn chwarae cynnwys ychwanegol cyn yr RIRS, ac eithrio ar gyfer nodi’r RIRS yn fyr neu, os yw’r DRSS yn defnyddio gwasanaeth arall (neu wasanaethau eraill), nodyn byr o’r gwasanaeth hwnnw, neu
>
> c) nid yw’r DRSS yn chwarae hysbysebion cyn yr RIRS heb gytundeb darparwr RIRS.
>
> **Paragraff A3.2**: Nid yw’r cam gweithredu hwn a argymhellir yn berthnasol pan fydd ymyriad neu gynnwys sy’n cael ei chwarae cyn yr RIRS yn deillio o ddewisiadau defnyddiwr, fel gosodiadau dyfais sy’n caniatáu ymyriadau fel hysbysiadau, rhybuddion, larymau neu alwadau.

### Eglurhad o’r camau gweithredu arfaethedig a argymhellir

3.21 Nod y camau gweithredu a argymhellir o dan y ddyletswydd hon yw sicrhau cyn lleied â phosibl o ymyriadau neu oedi oni bai fod eithriad penodol yn berthnasol. Yn yr un modd â’r

[28] Gwneir eithriadau ar gyfer nodwedd adnabod y gwasanaeth ffrydio ac unrhyw drydydd parti y mae’r gwasanaeth yn ei ddefnyddio ac, os yw’r darparwr RIRS yn cytuno, un neu fwy o hysbysebion sy’n cael eu chwarae cyn i’r RIRS gael ei achosi i chwarae.

camau gweithredu a argymhellir a drafodir uchod, mae ein cynigion wedi'u cyfyngu i egluro sut dylai systemau a phrosesau darparwyr DRSS ddelio ag ymyriadau.

3.22 Mae'r camau gweithredu rydym yn eu hargymell yn ei gwneud yn glir na ddylai DRSS amharu ar RIRS ar ôl iddo ddechrau chwarae. Ein dealltwriaeth ni yw bod hyn yn unol â'r arferion presennol. Mae'r cam gweithredu a argymhellir hefyd yn glir na ddylai darparwyr DRSS fewnosod cynnwys ychwanegol cyn i RIRS ddechrau chwarae, gyda dau eithriad cyfyngedig. Mae'r cyntaf yn nodi'r RIRS ei hun yn gryno, neu'n nodi gwasanaeth y mae'n ei ddefnyddio i hwyluso chwarae'n ôl, fel cydgasglydd trydydd parti. Mae'r ail yn ymwneud â hysbysebion sy'n cael eu chwarae cyn i RIRS ddechrau chwarae, cyn belled â bod hyn gyda chytundeb darparwr RIRS.

3.23 Yn debyg i'r ddyletswydd dull benodol, mae'r Ddeddf yn egluro nad oes disgwyl i ddarparwyr DRSS weithredu yn erbyn dewisiadau defnyddwyr.[29] Yn ein Cod, rydym yn egluro nad oes yn rhaid i ddarparwyr DRSS atal ymyriadau nac eitemau sy'n rhagflaenu sy'n deillio o ddewisiadau neu osodiadau dyfais defnyddiwr. Mae hyn yn cynnwys gosodiadau a ddewiswyd gan ddefnyddiwr wrth osod y ddyfais, dewisiadau a ddewiswyd yn ddiweddarach, hysbysiadau fel larymau wedi'u gosod yn fwriadol ac ymyriadau sy'n rhan annatod o'r ddyfais sy'n cael ei defnyddio, fel galwadau sy'n dod i mewn.

# Effaith ein cynnig

## Effaith ar ddarparwyr DRSS

3.24 I grynhoi, rydym o'r farn bod yr effeithiau posibl ar ddarparwyr DRSS yn debygol o fod yn isel a, lle bo'n bresennol, yn deillio i raddau helaeth o ofynion y Ddeddf. O'n hymgysylltiad â darparwyr RSS, rydym yn deall nad ydynt ar hyn o bryd yn mewnosod hysbysebion cyn ffrydiau radio, ac nad ydynt chwaith yn tarfu ar ffrydiau radio byw gyda hysbysebion.[30] Yn unol â hynny, nid ydym o'r farn y byddai'r camau gweithredu arfaethedig yn gofyn am newidiadau gweithredol sylweddol.

3.25 Mae prif effaith y ddyletswydd yn ymwneud â gwerth ariannol posibl gwrando ar y radio yn y dyfodol drwy hysbysebion sy'n cael eu mewnosod gan blatfformau. Fodd bynnag, cafodd yr effeithiau posibl hyn eu hasesu gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ei hasesiad effaith a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Cyfryngau[31]. Felly, nid ydym yn rhagweld effeithiau ychwanegol y tu hwnt i'r rheini sydd eisoes wedi cael eu hystyried.

3.26 Ar yr un pryd, nid yw'r gofyniad yn atal darparwyr DRSS ac RIRS rhag ymrwymo i drefniadau masnachol sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall sy'n cynnwys hysbysebu, gan gadw'r posibilrwydd o arloesi masnachol.

## Effaith ar ddarparwyr RIRS

3.27 Mae'r ddyletswydd a'r camau gweithredu rydym yn eu hargymell yn diogelu darparwyr RIRS i raddau helaeth. Maent yn helpu i ddiogelu eu rhestr hysbysebu a'u model refeniw, gan ganiatáu iddynt gadw rheolaeth dros gydbwysedd y cynnwys a'r hysbysebion yn unol â buddiannau masnachol a dewisiadau eu cynulleidfaoedd..

[29] Adran 362BI(5) o'r Ddeddf.

[30] Mae hyn yn gyson ag asesiad effaith yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: "Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw lwyfannau cynorthwywyr llais wedi dewis mewnosod hysbysebion y gellid eu darparu dros ffrydiau sain neu cyn hynny." Gweler paragraff 223.

[31] Daeth y Bil Cyfryngau yn Ddeddf Cyfryngau 2024 pan gafodd Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith.

**Cwestiwn 3 yr ymgynghoriad**:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **dyletswydd dim ymyriadau** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

# Gwahardd codi tâl

3.28 Mae'r gwaharddiad hwn yn sicrhau bod darparwyr DRSS yn cydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a drafodir uchod heb godi tâl ar ddarparwyr RIRS. Mae hyn yn cynnwys codi tâl ariannol (fel ffioedd cludo neu daliadau am ddull sy'n cael ei ffafrio) a threfniadau anariannol (fel mynnu bod rhestr hysbysebu'n cael ei rhannu neu fynediad at ddata defnyddwyr).

**Crynodeb o argymhelliad 4: Gwahardd codi tâl**

**Paragraff A4.1**: Ni ddylai darparwyr DRSS godi tâl ar ddarparwyr RIRS am gymryd y camau gweithredu a argymhellir ac a nodir yn y Cod. Ni ddylent chwaith ymrwymo i gytundebau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr RIRS dalu ffioedd a fyddai'n torri'r gwaharddiad hwn, neu sy'n gallu ei dorri.

## Eglurhad o'r cynigion

3.29 Mae'r gwaharddiad hwn yn adlewyrchu un o nodau penodol y ddeddfwriaeth, sef diogelu argaeledd gwasanaethau radio'r DU ar blatfformau cynorthwywyr llais yn ddi-dâl.[32] Mae'r gwaharddiad yn nodi'n glir bod yn rhaid i ddarparwyr DRSS gyflawni'r dyletswyddau mynediad heb godi tâl ar ddarparwyr RIRS, gan gynnwys codi tâl ariannol a threfniadau anariannol, neu geisio tâl am gyflawni eu rhwymedigaethau craidd drwy drefniadau masnachol.

3.30 Gan mai dim ond i'r dyletswyddau mynediad y mae'r gwaharddiad yn berthnasol, nid yw'n ceisio atal taliadau ym mhob sefyllfa - gall darparwr DRSS godi tâl ar ddarparwr RIRS am gyflawni gweithgareddau y tu allan i gwmpas Rhan 6.

3.31 Ar ben hynny, fel y nodir yn Adran 2 uchod, nid yw gofynion Rhan 6 yn berthnasol i'r berthynas fasnachol rhwng darparwyr RIRS a thrydydd partïon, fel cydgasglwyr. Nid yw'r gwaharddiad yn atal, er enghraifft, cydgasglydd trydydd parti rhag codi tâl ar ddarparwr RIRS am sicrhau bod y RIRS hwnnw ar gael drwy'r gwasanaeth cydgasglwyr.

## Effaith ein cynnig

### Effaith ar ddarparwyr DRSS

3.32 I grynhoi, rydym o'r farn bod yr effeithiau posibl ar ddarparwyr DRSS yn debygol o fod yn isel a, lle bo'n bresennol, yn deillio i raddau helaeth o ofynion y Ddeddf. Ar sail ein dealltwriaeth bresennol, nid yw darparwyr DRSS ar hyn o bryd yn codi tâl ar orsafoedd radio'r DU am gludo nac am alluogi dethol a chwarae drwy orchymyn llafar yn y DU.[33] Felly,

[32] Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Cyfryngau 2024, paragraff 384.
[33] Mae hyn yn gyson ag asesiad effaith yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: "Ar hyn o bryd, does dim platfformau cynorthwywyr llais yn codi tâl ar orsafoedd radio am fynediad." Gweler paragraff 208, asesiad effaith yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer 'Rheoleiddio gwasanaethau radio ar draws platfformau cynorthwywyr llais'.

nid ydym yn disgwyl i'r camau gweithredu arfaethedig fynnu newidiadau sylweddol i strwythurau prisio na threfniadau masnachol presennol.

3.33 Mae'r brif effaith yn ymwneud ag arferion codi tâl posibl yn y dyfodol gan ddarparwyr DRSS ar gyfer gweithgareddau sy'n dod o dan y dyletswyddau statudol. Cafodd yr effeithiau posibl hyn eu hasesu gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ei hasesiad effaith a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Cyfryngau. Mae ein hargymhellion arfaethedig yn cyd-fynd â'r gwaharddiad statudol a aseswyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac felly nid ydym yn rhagweld effeithiau ychwanegol y tu hwnt i'r rheini sydd eisoes wedi cael eu hystyried.

### Effaith ar ddarparwyr RIRS

3.34 I grynhoi, rydym o'r farn bod yr effeithiau posibl ar ddarparwyr RIRS yn debygol o fod yn isel a, lle bo'n bresennol, yn deillio i raddau helaeth o ofynion y Ddeddf. Fel y nodir uchod ar sail ein dealltwriaeth bresennol, nid yw darparwyr DRSS ar hyn o bryd yn codi tâl ar orsafoedd radio'r DU am gludo nac am alluogi dethol a chwarae'n ôl drwy orchymyn llafar yn y DU. Ar gyfer darparwyr RIRS, mae'r gwaharddiad ar godi tâl yn y Ddeddf yn lliniaru'r risg o drosglwyddiadau refeniw yn y dyfodol i ddarparwyr DRSS drwy ffioedd uniongyrchol neu daliadau anuniongyrchol, gan roi sicrwydd na chodir tâl ar ddarparwyr RIRS am weithgareddau sy'n dod o dan y dyletswyddau statudol.

> Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:
>
> Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **gwahardd codi tâl** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

## Asesiad effaith cyfunol

3.35 Rydym yn nodi isod ein hasesiad o effeithiau cyfunol ein Cod drafft arfaethedig, gan ystyried effeithiau unigol pob cam gweithredu arfaethedig a argymhellir a drafodir uchod.

3.36 Mae ein hasesiad yn canolbwyntio ar effaith gynyddol debygol y camau gweithredu arfaethedig a argymhellir o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol, gan ystyried bod darparwyr DRSS eisoes yn gweithredu systemau a phrosesau sy'n galluogi defnyddwyr i wrando ar amrywiaeth eang o wasanaethau radio a gofyn amdanynt drwy lais. Felly, rydym wedi ystyried i ba raddau y byddai'r camau gweithredu rydym yn eu hargymell yn gofyn am newidiadau i'r trefniadau presennol hynny.[34]

3.37 Gyda'i gilydd, rydym o'r farn bod y camau gweithredu arfaethedig a argymhellir yn annhebygol o arwain at gostau ychwanegol sylweddol i ddarparwyr DRSS. Mae ein cynigion wedi'u targedu ac rydym o'r farn mai'r camau gweithredu a argymhellir yw'r dull lleiaf beichus sydd ar gael ar yr un pryd â sicrhau amcanion a gofynion y Ddeddf.

3.38 Ar gyfer darparwyr RIRS, mae'r camau gweithredu arfaethedig a argymhellir yn debygol o gael effaith gadarnhaol ac amddiffynnol ar y cyfan. Eu bwriad yw cefnogi mynediad dibynadwy at wasanaethau y gofynnir amdanynt, helpu i ddiogelu uniondeb ffrydiau radio, dileu'r risg o godi tâl am gyflawni'r dyletswyddau statudol craidd yn y dyfodol a rhoi mwy o

[34] Rydym yn nodi y gall darparwyr DRSS ddewis cydymffurfio drwy fesurau amgen, ond rydym o'r farn bod y camau gweithredu arfaethedig a argymhellir yn darparu sail resymol ar gyfer asesu effeithiau tebygol cydymffurfio.

sicrwydd ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu lle mae mwy nag un dull ar gael.

3.39 Rydym wedi ystyried effeithiau ehangach ar gystadleuaeth ac arloesi, a gafodd eu hasesu hefyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ei hasesiad o'r effaith a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Cyfryngau. Ar hyn o bryd, nid ydym o'r farn bod effaith gronnus y camau gweithredu arfaethedig a argymhellir yn debygol o osod anfanteision cystadleuol sylweddol ar ddarparwyr DRSS na chyfyngu'n ormodol ar arloesi. Mae'r Cod drafft wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na rhagnodi atebion technegol manwl. Dylai roi hyblygrwydd i ddarparwyr arloesi dros amser, gan helpu i gadw mynediad at wasanaethau radio ar draws dyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais. Yn yr un modd, daeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r casgliad nad oedd yn disgwyl i'r rheoliadau gael effaith negyddol ar gystadleuaeth nawr nac yn y dyfodol, na chyfyngu ar arloesi.

3.40 Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod effeithiau tebygol y camau gweithredu arfaethedig a argymhellir yn y Cod drafft yn gyfyngedig ac yn gymesur.

# 4. Gweithredu, monitro a ffioedd

## Y camau nesaf o ran gweithredu

4.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Cod terfynol yn ystod gwanwyn 2027. Cyn i'r drefn newydd ddod i rym, byddwn yn ymgysylltu â darparwyr DRSS i'w helpu i ddeall eu dyletswyddau newydd a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gydymffurfio. Byddwn hefyd yn nodi'r broses hysbysu y gall darparwyr IRS ei dilyn i roi gwybod i Ofcom am eu ffrydiau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi RSS yn ffurfiol yn ddiweddarach eleni. Bydd dyletswyddau'n berthnasol i ddarparwyr o'r dyddiad y daw'r Ysgrifennydd Gwladol â'r darpariaethau statudol perthnasol i rym.

4.2 Mae'n bwysig bod y drefn newydd yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn dechrau sicrhau manteision i gynulleidfaoedd a darparwyr RIRS. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, ar ôl i'n Cod gael ei gwblhau, efallai y bydd angen amser ar ddarparwyr DRSS i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

4.3 Felly, rydym yn gofyn am farn ar y cyfnod y bydd angen rhesymol i ddarparwyr DRSS gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y drefn newydd. Mae ein hasesiad effaith yn awgrymu bod cydymffurfio yn debygol o olygu gwella neu addasu systemau a phrosesau presennol, yn hytrach na datblygu swyddogaethau cwbl newydd. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd angen amser ar ddarparwyr DRSS i roi trefniadau ar waith i gynnal gwybodaeth gyfredol am RIRS, defnyddio'r dulliau darparu sy'n cael eu ffafrio lle bo hynny'n briodol, a sicrhau capasiti i ddethol ac achosi i wasanaethau chwarae yn unol â'r gofynion.

4.4 Rydym yn cydnabod bod y camau y gallai fod angen i wahanol ddarparwyr DRSS eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn debygol o amrywio. Fodd bynnag, o ystyried nad yw'r newidiadau angenrheidiol yn debygol o fod yn sylweddol, **rydym o'r farn y byddai tri mis (ar ôl cwblhau ein Cod) yn gyfnod rhesymol i bob darparwr DRSS gydymffurfio â'r dyletswyddau mynediad a'r gwaharddiad ar godi tâl o dan y drefn newydd.**

4.5 Rydym yn croesawu safbwyntiau gan randdeiliaid, wedi'u hategu gan dystiolaeth, ar ein hasesiad o'r camau ymarferol a'r amser sydd ei angen i weithredu'r gofynion.

> **Cwestiwn 5 yr ymgynghoriad**:
>
> Ydych chi'n cytuno bod **tri mis** yn gyfnod rhesymol i ddarparwyr DRSS gydymffurfio? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol.

## Monitro

4.6 O dan y Ddeddf, rhaid i Ofcom gael, casglu ac adolygu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i ddynodi neu ddirymu statws DRSS, ac asesu cydymffurfiad â'r gofynion yn y Ddeddf.

4.7 Ar gyfer monitro sy'n gysylltiedig â dynodi, byddwn yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys:

a) monitro'r farchnad yn barhaus, er mwyn tracio datblygiadau yn y diwydiant a datblygiadau technolegol;
b) cyfuniad o ddata mewnol ac allanol;
c) pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth pan fo hynny'n briodol; a hefyd

d) ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid.

4.8 Bydd hyn yn ein helpu i olrhain y pwyntiau data sy'n pennu a yw gwasanaeth, ym marn Ofcom, yn cyrraedd (neu ddim yn cyrraedd) y trothwy dynodi mwyach.

4.9 Ar gyfer monitro sy'n ymwneud â chydymffurfio, byddwn yn adolygu'r wybodaeth a gawn, er mwyn nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac asesu a allai camau gorfodi fod yn briodol. Byddwn hefyd yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth ffurfiol, yn adolygu data a gwybodaeth berthnasol, ac yn ymgysylltu'n anffurfiol â darparwyr yn ôl yr angen.

4.10 Pan fyddwn yn nodi achosion posibl o beidio â chydymffurfio, bydd Ofcom yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion gorfodi rydym wedi'u cyhoeddi. Mae'r rhain yn datgan y byddwn bob amser yn ceisio datrys problemau mewn ffordd gymesur ac effeithiol, gan ddefnyddio'r offer rheoleiddio lleiaf ymwthiol sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiad, gan ymyrryd yn gadarn lle bo angen - yn enwedig mewn achosion difrifol neu reolaidd o dorri amodau. Mae ein pwerau gorfodi yn cynnwys y gallu i fynnu gwybodaeth, agor ymchwiliadau a gosod cosbau ariannol. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'n Canllawiau Gorfodi i adlewyrchu'r dyletswyddau newydd yn y Ddeddf.

## Ffioedd

4.11 Bydd Ofcom yn gallu codi ffioedd ar ddarparwyr DRSS ac RIRS i dalu costau rheoleiddio o dan y drefn newydd.[35] Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein dull gweithredu ynghylch ffioedd yn nes ymlaen eleni a byddwn yn dechrau codi ffioedd ar randdeiliaid perthnasol ar ôl i'r drefn newydd ddechrau'n llawn.

[35] Adran 362BX o'r Ddeddf.

# A1. Y fframwaith cyfreithiol

A1.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau dethol radio (RSS) a gosod cod ymarfer ar gyfer y gwasanaethau dethol radio dynodedig hyn (DRSS) o dan Ran 3B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 6 o Ddeddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o'r darpariaethau perthnasol yw'r Atodiad hwn; nid yw'n disodli cyfeirio at y statud.

A1.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom i gyflawni ei swyddogaethau hefyd yn berthnasol, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[36] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol.[37]

A1.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n gyfystyr â'r ymarfer rheoleiddio gorau.[38]

A1.4 Fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod, bydd yn rhaid i wasanaethau dethol radio sy'n cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (RSS neu DRSS dynodedig) gydymffurfio ag amrywiol rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol.[39]

## Gwasanaethau dethol radio

A1.5 Mae'r Ddeddf yn diffinio bod RSS yn "wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd sy'n galluogi, neu ymysg pethau eraill sy'n galluogi, defnyddiwr y gwasanaeth—(a) i ddewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd[40] a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a (b) gwneud i wasanaeth radio rhyngrwyd a ddewisir chwarae, drwy roi gorchmynion llafar sy'n cael eu recordio gan offer sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd."[41]

A1.6 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi "gwasanaeth dethol radio."[42] Mae'r diwygiadau caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu gwneud yn cynnwys ychwanegu, dileu neu newid rhywbeth mae gwasanaeth dethol radio yn galluogi defnyddiwr i'w wneud.[43]

---

[36] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[37] Adran 3(4)(a) o'r Ddeddf.
[38] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[39] Adran 362BI o'r Ddeddf.
[40] Mae adran 362BF o'r Ddeddf yn diffinio gwasanaeth radio rhyngrwyd fel "gwasanaeth, neu adran ddatgysylltiol o wasanaeth, sy'n cynnwys darparu gan berson raglenni sy'n cynnwys sain yn unig (ynghyd ag unrhyw wasanaethau ategol) gyda'r bwriad o sicrhau eu bod ar gael i'w derbyn gan aelodau o'r cyhoedd drwy gael eu dosbarthu drwy gyfrwng y rhyngrwyd (boed hynny gan ddarparwr y gwasanaeth neu berson arall)".
[41] Adran 362BA(1) o'r Ddeddf.
[42] Adran 362BA(2) o'r Ddeddf.
[43] Adran 362BA(3) o'r Ddeddf.

## Gwasanaethau dethol radio dynodedig

A1.7 Mae "gwasanaeth dethol radio dynodedig" (y cyfeirir ato hefyd fel DRSS) yn RSS sydd wedi'i ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau.[44]

A1.8 Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd (IRS)yn sylweddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi RSS (a chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod lefel y defnydd yn sylweddol os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei fod yn sylweddol mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft tra mewn cerbyd).[45]

A1.9 Cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu gwneud rheoliadau sy'n dynodi RSS, rhaid iddo fod wedi cael adroddiad gan Ofcom, sy'n cynnwys argymhellion Ofcom ar ymarfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i ddynodi'r RSS dan sylw.[46] Rhaid i Ofcom gyflwyno adroddiad o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i ni hefyd ei gyhoeddi.[47]

A1.10 Gall Ofcom benderfynu ar ei liwt ei hun i ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.[48] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiad gan Ofcom, ac os felly mae'n rhaid i ni baratoi un cyn gynted ag sy'n ymarferol.[49]

A1.11 Rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi datganiad ar yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gwneud argymhellion am arfer ei bwerau i wneud rheoliadau dynodi. Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwn a rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd.[50]

## Rhestr o wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol

A1.12 Mae'r drefn newydd yn mynnu bod darparwyr RSS dynodedig yn cydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â darparu "gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol." (RIRS) Mae'r rhain yn IRS sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr a gedwir gan Ofcom.

A1.13 Dyma'r amodau mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r IRS gael ei gynnwys ar y rhestr (a dod yn RIRS):

a) bod gan ddarparwr y gwasanaeth system neu broses effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn "cyfateb" i wasanaeth radio yn y DU sy'n cael ei ddarparu ganddynt. Mae'r IRS yn cyfateb i wasanaeth radio yn y DU os (heb ystyried hysbysebion) yw'r holl raglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr IRS yn cael eu darlledu ar wasanaeth radio yn y DU ar yr un pryd ag y maent yn cael eu darparu gan yr IRS; ac

b) mae darparwr IRS wedi rhoi hysbysiad i Ofcom yn gofyn am gael cynnwys y gwasanaeth ar y rhestr.

A1.14 Nid oes yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau radio yn y DU ddarparu ffrydiau ar-lein o'u gwasanaethau. Pan fydd darparwr RIRS yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu'r ffrwd ar-

[44] Adran 362BB(1) o'r Ddeddf.
[45] Adran 362BB(2) o'r Ddeddf.
[46] Adran 362BB(2)(a) o'r Ddeddf.
[47] Adran 362BC(5) o'r Ddeddf.
[48] Adran 362BC(1) o'r Ddeddf.
[49] Adran 362BC(2) a (3) o'r Ddeddf.
[50] Adran 362BC(8) o'r Ddeddf.

lein, rhaid iddo roi gwybod i Ofcom. Byddai Ofcom yn tynnu'r gwasanaeth oddi ar y rhestr ac felly ni fyddai'n RIRS mwyach.[51]

## Effaith dynodi

A1.15 Pan fydd RSS yn cael ei ddynodi, rhaid i ddarparwr y DRSS gydymffurfio â'r dyletswyddau a'r gwaharddiad a nodir yn Adran 362BI o'r Ddeddf.[52]

A1.16 Mae'r gofynion hyn fel a ganlyn:

a) rhaid i ddarparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dethol gwasanaethau RIRS, a gwneud iddynt chwarae, drwy roi gorchmynion llafar;[53]

b) rhaid i ddarparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, pan fydd y DRSS yn cael ei ddefnyddio fel y disgrifiwyd yn (a) uchod, nad oes unrhyw eitemau'n cael eu chwarae cyn yr RIRS sydd wedi cael ei ddethol, ac nad oes unrhyw darfu ar yr RIRS. Mae rhai eithriadau i'r gwaharddiad ar chwarae eitemau cyn yr RIRS sydd wedi cael ei ddethol:

   i) ceir chwarae darn byr i ddynodi beth yw'r RIRS sydd wedi cael ei ddethol;

   ii) os yw'r DRSS yn defnyddio gwasanaeth rhyngrwyd arall i wneud i'r RIRS a ddewiswyd chwarae, ceir chwarae darn byr i ddynodi beth yw'r gwasanaeth rhyngrwyd arall hwnnw; a hefyd

   gellir chwarae un neu fwy o hysbysebion, os yw darparwr yr RIRS a gafodd ei ddethol yn cytuno;[54]

c) os yw darparwr RIRS yn gofyn i ddarparwr DRSS sicrhau bod y gwasanaeth yn defnyddio dull penodol o ran y gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol hwnnw, rhaid i'r darparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y dull hwnnw'n cael ei ddefnyddio wrth chwarae'r RIRS a gafodd ei ddethol; a hefyd[55]

d) mae darparwyr DRSS wedi'u gwahardd rhag godi tâl ar ddarparwyr RIRS am wneud yr hyn mae'n rhaid i ddarparwyr DRSS ei wneud i gydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir ym mharagraff A1.16 a) i A1.16 c).[56]

## Cod ymarfer

A1.17 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi cod ymarfer sy'n argymell y camau y dylai darparwyr DRSS eu cymryd wrth geisio sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion a restrir ym mharagraff A1.16 uchod.[57]

---

[51] Adran 362BG(5) o'r Ddeddf. Gellir tynnu'r gwasanaeth oddi ar y rhestr drwy hysbysiad gan ddarparwr y gwasanaeth; a rhaid i'r darparwr roi hysbysiad i Ofcom os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth radio rhyngrwyd neu'r gwasanaeth radio cyfatebol yn y DU, neu os yw darpariaeth y gwasanaeth radio rhyngrwyd wedi dod i ben.
[52] Adran 362BK o'r Ddeddf.
[53] Adran 362BC(8) o'r Ddeddf.
[54] Adran 362BI(2) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr yn diystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[55] Adran 362BI(3) a (4) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr yn diystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[56] Adran 362BI(6) o'r Ddeddf.
[57] Adran 362BK o'r Ddeddf.

A1.18 Rhaid i Ofcom gyhoeddi cod ymarfer a pharhau i adolygu hyn.[58] Caiff Ofcom ddiwygio cod ymarfer a chyhoeddi'r cod fel y'i diwygiwyd. Caiff Ofcom hefyd dynnu cod ymarfer yn ôl a chyhoeddi un newydd.[59]

A1.19 Cyn cyhoeddi cod ymarfer, rhaid i Ofcom gyhoeddi drafft o'r cod neu ddrafft o'r diwygiadau i'r cod presennol[60] a rhaid iddo ymgynghori arno.[61]

A1.20 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i Ofcom adolygu'r cod ymarfer cyfan neu ran ohono ac, os felly, rhaid i Ofcom adolygu'r cod neu'r rhan honno ohono.[62]

## Effaith y Cod Ymarfer

A1.21 Dylid trin darparwyr DRSS fel rhai sy'n cydymffurfio â'r gofynion a restrir ym mharagraff A1.16 uchod lle mae'r darparwr yn cymryd y camau a ddisgrifir yng nghod ymarfer Ofcom.[63]

A1.22 Mae'n rhaid i ddarparwyr DRSS lunio a chyhoeddi datganiad am sut maen nhw'n bwriadu cydymffurfio â'r gofynion.[64] At hynny, rhaid iddynt barhau i adolygu'r datganiad hwn ac, os yw'n briodol, ei ddiwygio. Rhaid cyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddatganiad diwygiedig o'r fath.[65]

A1.23 Rhaid i ddarparwyr DRSS hefyd sefydlu a chynnal gweithdrefnau cwyno ar gyfer trin a datrys cwynion a wneir gan ddarparwyr RIRS lle mae darparwr RIRS yn credu bod y DRSS yn methu, neu wedi methu, â chydymffurfio â'r gofynion a restrir ym mharagraff A1.16 uchod.[66]

# Dyletswydd twf economaidd

A1.24 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried dymunoldeb hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, byddwn yn arfer ein swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) mai dim ond pan fydd eu hangen y bydd camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd; a

b) bod unrhyw gamau a gymerir yn rhai cymesur.[67]

A1.25 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod arloesedd a chystadleuaeth ymysg y ffactorau sy'n sbarduno twf economaidd.

---

[58] Adran 362BK(3)(b) o'r Ddeddf.
[59] Adran 362BK(2) o'r Ddeddf.
[60] Adran 362BM(1)(a) o'r Ddeddf.
[61] Adran 362BM(1)(b) o'r Ddeddf. Rhaid i Ofcom ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, pobl y mae'n ymddangos i Ofcom eu bod yn cynrychioli darparwyr gwasanaethau radio rhyngrwyd, pobl y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli darparwyr gwasanaethau dethol radio, ac unrhyw rai eraill y mae Ofcom yn credu sy'n briodol.
[62] Adran 362BK(4) o'r Ddeddf.
[63] Adran 362BL o'r Ddeddf.
[64] Adran 362BJ(1) o'r Ddeddf.
[65] Adran 362BJ(2) a (3) o'r Ddeddf.
[66] Adran 362BN o'r Ddeddf.
[67] Adran 108(2)(b) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A1.26 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ein swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: ailbennu rhywedd; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; hil; oed; priodas a phartneriaeth sifil; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A1.27 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ddymunoldeb hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A1.28 Fe wnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A1.29 Mae Safonau Llunio Polisïau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

# A2. Cod Ymarfer Drafft

A2.1 Mae'r cod ymarfer drafft ar gyfer cyhoeddi i'w weld ar ein gwefan.

# A3. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A3.1 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A3.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.[68] Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.3 Rydym ni wedi ystyried yn ofalus a fyddai'r argymhellion a wneir yn y ddogfen hon yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oed, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allent wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

A3.4 Wrth gynnal yr asesiad hwn, rydym wedi defnyddio tystiolaeth o'n tracwyr parhaus a data'r diwydiant, gan gynnwys ein Traciwr Technoleg, Arolwg Sain a RAJAR, yn ogystal ag ymchwil pwrpasol, fel ein Hymchwil i Frandiau Cynorthwywyr Llais ym mis Medi 2024.

A3.5 Rydym o'r farn y bydd y cynigion yn diogelu argaeledd gwasanaethau radio rhyngrwyd ac yn sicrhau'r gwerth y mae radio yn y DU yn ei gynnig i bob cynulleidfa. Efallai y bydd rhai cynulleidfaoedd yn gweld mwy o fanteision yn seiliedig ar eu perthynas â chynorthwywyr llais, fel defnyddwyr anabl, gan gynnwys y rheini sydd â namau symudedd, deheurwydd neu'r rhai sydd ag amhariad ar y golwg, a defnyddwyr sy'n dibynnu ar gynorthwywyr llais fel technoleg gynorthwyol. Mae'n bosibl y byddant hefyd o fudd i rai defnyddwyr hŷn a allai deimlo bod gorchmynion llafar yn haws neu'n fwy hygyrch na llywio apiau, gwefannau neu ddewislenni dyfeisiau.

A3.6 Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y Cod arfaethedig yn debygol o gael effaith niwtral neu gadarnhaol ar ganlyniadau cydraddoldeb. Nid ydym yn credu y byddai'n cael effaith niweidiol ar unrhyw grŵp gwarchodedig, yn tanseilio cyfle cyfartal nac yn cael effaith niweidiol ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau. Yn hytrach, drwy gefnogi mynediad mwy dibynadwy a hygyrch at wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol drwy

[68] Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998).

gynorthwywyr llais, gall y cynigion wella canlyniadau i rai defnyddwyr drwy sicrhau bod cynorthwywyr llais yn dychwelyd gwasanaethau radio rhyngrwyd y gofynnir amdanynt yn ddibynadwy.

## Y Gymraeg

A3.7 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[69] I roi hyn ar waith mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[70] Yn unol â hynny, rydym ni wedi ystyried effaith bosibl ein cynigion ar: (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A3.8

A3.9 Nid ydym yn credu y byddai'r Cod arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar siaradwyr Cymraeg na gwasanaethau radio Cymraeg. Mae'r camau gweithredu a argymhellir yr un mor berthnasol i'r holl wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol, p'un a yw'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu gan yr RIRS yn Gymraeg neu'n Saesneg, a'u bwriad yw cefnogi mynediad dibynadwy at y gwasanaethau hynny drwy orchmynion llafar. Rydym o'r farn bod y cynigion yn debygol o gael effaith niwtral ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (drwy wrando ar gynnwys Cymraeg ar wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol) ac ar sicrhau nad yw gwasanaethau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na gwasanaethau Saesneg. Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad y drefn ac yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a ddaw i law drwy'r ymgynghoriad hwn.

[69] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

[70] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch barn a'ch sylwadau am y materion a godwyd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 9 Tachwedd 2026.

A4.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yma. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i mediaact.part6@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 9 Tachwedd 2026.

A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A4.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i uwchlwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai bod eich ymateb yn gyfrinachol).

A4.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.9 Byddai'n ddefnyddiol pe bai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 7. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A4.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r Tîm Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau drwy anfon neges e-bost i mediaact.part6@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Fodd bynnag, mater i Ofcom yw penderfynu a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio. Weithiau, mae'n bosibl y byddwn yn credu bod angen cyhoeddi ymateb cyfan neu ran ohono, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol (er enghraifft, er mwyn i ni allu egluro ein penderfyniadau a bod pobl yn gallu deall ein rhesymeg neu er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol).

Pan fydd hyn yn digwydd (ac nad yw'r wybodaeth berthnasol eisoes ar gael i'r cyhoedd), byddwn fel arfer yn egluro ein bwriad i gyhoeddi gwybodaeth o'ch ymateb yn gyntaf ac yn rhoi cyfle i chi godi pryderon ynghylch cyhoeddi'r wybodaeth honno. Yn gyffredinol, byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych drwy ddeialog adeiladol. Os byddwn yn dal yn credu bod angen i ni gyhoeddi eich ymateb cyfan neu ran ohono a'ch bod yn parhau i wrthwynebu hynny, byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i chi cyn ei gyhoeddi.

A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yng ngwanwyn 2027.

A4.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 5.

A4.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n

arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.20 Os hoffech chi drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn dweud yn glir gyda phwy rydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **dyletswydd dethol a chwarae** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **dyletswydd dull penodol** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **dyletswydd dim ymyriadau** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer **gwahardd codi tâl** a'n hasesiad o'u heffeithiau cysylltiedig? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno bod **tri mis** yn gyfnod rhesymol i ddarparwyr DRSS gydymffurfio? Esboniwch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth ategol.